



Y Canolbarth dros Ffoaduriaid - Mid Wales Refugee Action

DIOLCH MACHYNLLETH !!

Adroddiad blynyddol

Dyma adroddiad o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud rhwng Gorffennaf 2017 a Gorffennaf 2018.

Codi Arian a Chodi Ymwybyddiaeth

2017

- Gorffennaf 11 - Protest "Stop Funding Hate" yn siop Marks & Spencer's, Aberystwyth - rhan o ymgyrch genedlaethol i ofyn i M&S peidio â hysbysebu ym mhapur newydd y Daily Mail.
- Gorffennaf 19: Codi arian a chodi ymwybyddiaeth ym Marchnad Mercher Machynlleth
- Gorffennaf 31 - Awst 2: Digwyddiad Unioni'r Fantol yng Ngŵyl El Sueno Existe - cael hwyl wrth godi arian gyda phabell gwisg ffansi foethus y Canolbarth dros Ffoaduriaid
- Medi 8-11: Glanhau'r maes pebyll yng Ngŵyl rhif 6
- Hydref 21: dathliad pen-blwydd cyntaf y Canolbarth dros Ffoaduriaid yn neuadd Pantperthog, gyda gwybodaeth ynghylch ein gweithgareddau a thrafodaeth ynglŷn â sut hoffai pobl gymryd rhan
- Tachwedd 10: stonid yn Ngŵyl Ffilm Affricanaidd yn sinema'r Llusern Hud
- Tachwedd 21 - stonid yn nigwyddiad Bwyd Dros Ben Aber er budd Help Refugees.
- Tachwedd 23: Derbyniodd Machynlleth statws 'Tref Lloches' yn swyddogol
- Tachwedd 24: Ffilm a Ffalaffel - 'Terrafirma', neuadd Pantperthog. Ffilm am bysgotwr o'r Eidal a'i deulu, wrth iddynt gael eu dal rhwng cyfraith gwlad a chyfraith y môr pan mae'n helpu grŵp o ymfudwyr a achubwyd o rafft orlawn. Codwyd £298

- Tachwedd 25: Ffair Elusennol yn Y Plas, Machynlleth
- Tachwedd 28: Aeth aelodau Y Canolbarth dros Ffoaduriaid i gwrdd ag AS Sir Drefaldwyn Glyn Davies mewn digwyddiad Sanctuary yn San Steffan er mwyn ymgyrchu dros system lloches fwy trugarog.
- Tachwedd 18: Aelodau'r Canolbarth Dros Ffoaduriaid yn cymryd rhan mewn gwrthdystiad yng nghanolfan gadw Yarlswood, gan alw am gael gwared ar garcharu amhenodol heb brawf, sy'n effeithio ar fudwyr gan gynnwys plant.
- Rhagfyr - Prosiect codi arian Calendr MwrMen.
- Rhagfyr - Lobïo cyngor Calais gan ofyn iddynt ddarparu llety brys ar gyfer ymfudwyr sy'n cysgu allan yn ystod tywydd gaeafol.

2018

- 27 Ionawr 2018 - Digwyddiad Ffilm a Ffalaffel Pantperthog 'They will have to kill us first'.
- Chwefror 21 2018 - Cynnal Diwrnod Lloches ar gyfer teuluoedd lleol a ail-gartrefwyd yn Aberystwyth a'r Drenewydd wrth iddynt ymweld â marchnad Machynlleth a Chanolfan y Dechnoleg Amgen.
- Chwefror 21 - Gwynos Ghouta ger tŵr cloc Machynlleth.
- Mawrth 8 - ympryd 24 awr er mwyn cyd-sefyll â charcharorion yng nghanolfan gadw Yarlswood.
- Mawrth 9 - Ffilm, 'The White Helmets' Cwestiwn ac ateb a chysylltiad byw â Ghouta .Y Plas, Machynlleth.

- Mawrth 24 2018 - Digwyddiad cerddoriaeth a chodi arian Canolbarth Cymru a'r Dwyrain Canol yng Nghanolfan y Morlan yn Aberystwyth. Bws o'r Drenewydd.
- Ebrill 10 - cyflwyniad i eglwys Sant Pedr
- Ebrill 13 - Gweithredu ar y cyfryngau cymdeithasol. # Nid yw cyd-sefyll yn drosedd: er mwyn cefnogi datganiad y Cenhedloedd Unedig sy'n condemnio bygythiadau yn erbyn gweithwyr dyngarol.
- 6/7 Mai - Gŵyl Continwmm: Unioni'r Fantol
- Mai 13 - Digwyddiad Rhannu a Thrwsio Machynlleth: Unioni'r Fantol
- Mehefin 1-3 - Tân yn y Mynydd - Unioni'r Fantol
- Mehefin 16 - Cynorthwyo gyda dathliadau Eid yn y Drenewydd a phresenoldeb gan bobl o Aberystwyth
- Mehefin 20 - Stonid Wythnos Ffoaduriaid ym marchnad Machynlleth
- Mehefin 23 - Diwrnod gweithgarwch ysgol goedwig teuluol, y cyntaf o dri, mewn cydweithrediad â Dysgu Awyr Agored Cymru
- Mehefin 23 - Aelodau yn derbyn hyfforddiant pum niwrnod arweinwyr mudiadau NEON yng Nghaerdydd
- Mehefin 30 - dathliad cymunedol Braich Goch, Unioni'r Fantol.
- Gorffennaf 7 - ail ddiwrnod gweithgaredd teuluol ysgol goedwig.
- Gorffennaf 18 - stonid farchnad ym Machynlleth.

Gydag arian a godwyd gan gefnogwyr hael rhwng Gorffennaf 2017 a Gorffennaf 2018, rydym wedi ...

- Ariannu chwe ymweliad â Ffrainc a Serbia gan wirfoddolwyr, gan ddarparu 60 diwrnod o waith gwirfoddol yn cynorthwyo ffoaduriaid a sefydliadau llawr gwlad yn uniongyrchol yng Ngogledd Ffrainc ac yn Serbia, lle mae cannoedd o bobl yn byw heb ddigon o fwyd, cysgod neu fynediad at ddŵr neu wasanaethau.
- Mae'r teithiau hyn yn cynnwys cludo rhoddion hanfodol a'r gallu i adnabod anghenion ariannol brys a galluogi galwadau am roddion ariannol o gronfeydd a godwyd gan y Canolbarth dros Ffoaduriaid.
- Gorffennaf 2017 - £200 i Kesha Niya, sy'n cyflenwi bwyd a phrydau bwyd poeth i ffoaduriaid ar y ffin rhwng Ffrainc a'r Eidal
- Awst 2017 - £666 i Kesha Niya i'w galluogi i atgyweirio eu fan.
- • Medi 2017 - £500 ar gyfer fan gefnogaeth ar lawr gwlad yn Dunkerque
- Tachwedd 2017 - Ionawr 2018 £325 - y Canolbarth dros Ffoaduriaid yn noddi cyfres o ddsbarthiadau Tai Chi i Ferched yn unig yn Aberystwyth er mwyn cefnogi merched o Syria sy'n byw yn Aberystwyth ac i hyrwyddo cyfeillgarwch rhyng-ddiwyllynnol.
- Chwefror 2018 £188 - rhodd i gefnogi teithio diogel i ffoaduriaid trwy Serbia.
- Chwefror 2018 - £264 iard bren Calais
- Chwefror 2018 - £100 ymweliadau ysbyty a chludiant yn Calais
- Chwefror 2018 - £750 costau cynnal wythnos i gefnogi Utopia 56 sy'n dosbarthu bwyd a dillad yn Dunkerque a Calais ac yn darparu goruchwyliaeth yr heddlu i geisio amddiffyn ffoaduriaid rhag trais a bygythiad gan y wladwriaeth.
- Chwefror 2018 - £143.85 Diwrnod Lloches - ymweliad ar gyfer pobl o Syria a ail-gartrefwyd yn y Drenewydd ac Aberystwyth.
- Chwefror 2018 - £100 ar gyfer Canolfan Merched Dunkerque, gan ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i fenywod a phlant
- Mawrth 2018 - rhodd o £205 i Utopia 56
- Mawrth 2018 - £300 i iard bren Calais er mwyn ymateb i anghenion tywydd oer eithafol.
- Mawrth 2018 - £105 o gostau ffilm Helmedau Gwyn ar gyfer Syriaid wedi'u hailgartrefu.

- Mawrth 2018 - £350 er mwyn i bobl o Syria wedi eu hailgartrefu yn y Drenewydd ymweld â digwyddiad y Canolbarth dros Ffoaduriaid / Aberaid yn Aberystwyth.
- Ebrill 2018 - £150 o gardiau rheilffordd ar gyfer Syriaid wedi'u hailgartrefu
- Mai 2018 - £100 i'r Auberge yn Calais
- Mai 2018 - £300 pebyll argyfwng ar gyfer Calais.
- Mehefin 2018 - £100 ar gyfer dathliadau Eid yn y Drenewydd
- Mehefin 2018 - £165 ar gyfer dathliadau Eid Keysha Nya ar y ffin rhwng Ffrainc a'r Eidal.
- Mehefin 2018 - £85 o gostau teithio ar gyfer diwrnod ysgol goedwig deuluol ar gyfer teuluoedd o Syria a ail-gartrefwyd.
- Gorffennaf 2018 - £150 o gostau teithio ar gyfer diwrnod Ysgol Goedwig Teuluol.
- Gorffennaf 2018 - £100 i elusen cefnogi ffoaduriaid CEFN yn y Gogledd
- Gorffennaf 2018 - £30 Cerdyn Rheilffordd ar gyfer teulu o Syria sydd wedi eu hailgartrefu

Gwirfoddoli a Dosbarthu Nwyddau i Ewrop

- 31 Gorffennaf 2017: cyflwyno rhoddion hanfodol gan aelod ar ei ffordd trwy Calais.
- 23 Medi 2017: un diwrnod o wirfoddoli yn y gegin yn Calais gan aelodau ar eu ffordd yn ôl trwy Calais.
- 26 - 30 Hydref 2017: Darren, Giulio a Carlos yn mynd i Calais gyda rhoddion gan gynnwys peiriant torri gwallt ar gyfer barbwr symudol, yn gwirfoddoli yn y ceginau a'r iard bren, ac yn dosbarthu a didoli rhoddion.
- 9 - 14 Tachwedd 2017: Teg a Gabi yn mynd i Calais gyda char yn llawn rhoddion ar gyfer L'auberge des Migrants a phrosiect diwylliant sy'n hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon yn Calais, yn gwirfoddoli yn y ceginau a'r iard bren, ac yn dosbarthu a didoli rhoddion.
- 21 - 29 Rhagfyr 2017: Darren a Paul yn mynd i Serbia i wirfoddoli gyda BelgrAID ac i ddysgu mwy am sefyllfa'r ffoaduriaid ger ffiniau'r Undeb Ewropeaidd.
- 13-18 Chwefror 2018: Kim a Paul yn mynd i Calais ac yn cynnig cymorth emosiynol ar gyfer pobl sydd wedi eu hanafu, ac yn darparu cludiant. Galluogi prynu offer hanfodol ar gyfer dosbarthu coed tân mewn tywydd oer eithafol yn yr iard bren, gwirfoddoli yn y ceginau a dosbarthu a didoli rhoddion. Galluogi

rhodd o wythnos o gostau cynnal Utopia 56 (i'w helpu yn ystod bwlch yn eu llif cyllid) gan y Canolbarth Dros Ffoaduriaid.

- 25 - 31 Mawrth 2018: Darren, Claire a Carlos yn mynd i Calais, gan barhau gyda chefnogaeth ar gyfer iard bren, gan gymryd rhan mewn cefnogaeth isadeiledd ar gyfer cofnodi data a dosbarthu, gwirfoddoli yn y ceginau, a dosbarthu a didoli rhoddion.
- 26 Mai - 2 Mehefin 2018: Carlos yn mynd i Calais er mwyn cyflwyno meddalwedd newydd ar gyfer prosesau seilwaith mwy effeithlon ar gyfer cofnodi data dosbarthu, dosbarthu bwyd a dillad, gan gynorthwyo gyda chludiant a chefnogaeth ar gyfer ffoaduriaid dan glo.

Cefnogaeth Leol

- Parhaus - sesiynau galw heibio wythnosol ar ddydd Llun yn Aberystwyth a dydd Gwener yn y Drenewydd dan ofal grwpiau cymorth lleol, gyda'r Canolbarth Dros Ffoaduriaid yn mynychu; cyfarfod gyda theuluoedd o Syria sydd wedi eu hail-gartrefu, gwneud ffrindiau, helpu i drafod biliau cyfleustodau a deall gohebiaeth, hwyluso anghenion.
- Tachwedd 2017 - Mawrth 2018 Dosbarthiadau Tai Chi yn Aberystwyth
- Chwefror 2018 - Cynnal Diwrnod Lloches ar gyfer teuluoedd lleol a ail-gartrefwyd wrth iddynt ymweld â marchnad Machynlleth a Chanolfan y Dechnoleg Amgen.
- Chwefror 2018 - Hwyluso trefniadau Gwylnos Ghouta ger tŵr cloc Machynlleth.
- Chwefror 2018 - diogelu cyllid ar gyfer cydweithio â Dysgu Awyr Agored Cymru ar gyfer 3 sesiwn ysgol goedwig deuluol.
- Mawrth 2018 - Helpu i ddangos ffilm Helmedau Gwyn gyda chysylltiad byw â Ghouta, cartref i rai o Syria.
- Mawrth 2018 - Cyd-drefnu digwyddiad Canolbarth Cymru a'r Dwyrain Canol yng Nghanolfan y Morlan yn Aberystwyth
- Ebrill 2018 - Helpu i gael cardiau rheilffordd teuluol ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u hailgartrefu yn y Drenewydd
- Mehefin 2018 - Cynorthwyo gyda dathliadau Eid yn y Drenewydd a phresenoldeb gan bobl o Aberystwyth
- Mehefin 2018 - Sesiwn ysgol goedwig deuluol gyntaf.
- Gorffennaf 2018 - Ail sesiwn ysgol goedwig deuluol.